

## CCYSAGAUC: TARDDIAD A FFURFIANT

### Mr Rheinallt Thomas

Cymerwyd y cam cyntaf gan Gyngor Cwricwlwm Cymru yn ystod y flwyddyn academaidd 1990–91, gyda Rheinallt Thomas, Cyfarwyddwr y Ganolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol (CGAG) ym Mhrifysgol Cymru, Bangor, yn cymryd rôl flaenllaw yn y fenter. Cafodd Ymgynghoriad ei gynnal ym mis Mawrth 1991, ac ar ôl hynny cyhoeddwyd *Curriculum Bulletin No 5: Religious Education 5–16 in Wales*. Darparodd y fenter honno ffocws newydd a arweiniodd CGAG i gynnull, cadeirio a chofnodi Ymgynghoriad â holl GYSAG'au Cymru yng Nghaerdydd yn Ionawr 1992.

Deilliodd yr Ymgynghoriad ar amryw o argymhellion; un o'r rhain oedd y dylid sefydlu gweithgor bychan, a fyddai'n cael ei wasanaethu gan CGAG, i edrych ar y meysydd llafur cytûn a oedd wedi eu cyhoeddi. Fe wnaed hyn, a chafodd yr adroddiad ei ysgrifennu gan John Summerwill a'i gyhoeddi gan CGAG ym Mehefin 1992 o dan y teitl *New Agreed Syllabuses in Wales — Report of a Working Party to the Consultation on Agreed Syllabuses of the Welsh SACRES*. Cafodd yr adroddiad dwyieithog ei gyflwyno i ymgynghoriad arall a gynhaliwyd yn Nyfed ym Medi 1992. Parhaodd CGAG i gydlyn'r ymgynghoriad â ChYSAG'au Cymru, ac yn ystod 1993–94 canolbwyntiwyd ar Gylchlythyr newydd ynglŷn ag Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd (a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ar ffurf Cylchlythyr 10/94).

O ystyried gwerth yr hyn a oedd wedi ei gyflawni trwy gydweithredu, awgrymwyd y dylid ffurfio Cymdeithas o GYSAG'au Cymru. Bernid bod angen hyn o ganlyniad i ad-drefnu llywodraeth leol, a olygai fod wyth CYSAG yn troi'n 22 o 1996 ymlaen. Cyfarfu cynrychiolwyr yr wyth CYSAG Cymreig yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 1994 i ystyried sefydlu cymdeithas. Yr oedd cynrychiolwyr yr wyth AALI yng Nghymru yn unfrydol eu cefnogaeth i Gymdeithas newydd CYSAG'au Cymru pan gafodd ei sefydlu'n ffurfiol yn ei gyfarfod cyntaf ar 27 Chwefror 1995. Cafodd Cyfansoddiad ei gymeradwyo, a chytunwyd y byddai'r Gymdeithas yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn i drafod busnes o ddiddordeb cyffredin, rhannu arbenigedd, a hwyluso cydweithio rhwng AALI'au yn y gwaith o ddatblygu AG ac Addoli ar y Cyd. Yr oedd swyddogion cyntaf y Gymdeithas yn cynnwys: y Cadeirydd, yr Archddiacon A. John Lewis (Morgannwg Ganol); Yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Wyndham Davies (Gorllewin Morgannwg); yr Ysgrifennydd, Mr Gavin Craigen (Clwyd); a'r Trysorydd, Mr John Mitson (Powys).

Cafodd ail gyfarfod y Gymdeithas ei gynnal yng Nghlwyd ar 8 Mehefin 1995. Erbyn 1996 yr oedd yr ad-drefnu wedi digwydd, a chynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol CCYSAGauC yn Llangefni ar 11 Gorffennaf. Yr oedd hyfrydwch mawr, ar yr achlysur hwnnw, fod 18 o'r 22 awdurdod newydd yn gallu anfon cynrychiolwyr — gan gynnwys amryw o Gyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol Addysg. Nodwyd ar y pryd fod hyn, a hithau'n digwydd mor gynnar ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol a heb fod llawer o'r CYSAG'au wedi cyfarfod, yn arwydd o'r gwerth a welid yng ngwaith CCYSAGauC, ac o ymrwymiad yr AALI'au i GYSAG'au ac AG.

Ac o'r dechreuadau hynny, mae CCYSAGauC bellach wedi tyfu'n fforwm sefydledig ar gyfer AG ac Addoli ar y Cyd yng Nghymru, a'r unig gorff cynrychiadol yr ymgynghorir ag ef ynglŷn â phob mater o'r fath pa bryd bynnag y cyfyd yr angen.